

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** 23 Mai 2012

**Preseanol:** Dr D Assinder, Miss S Barnes, Dr G Clarke, Mr H Ellis, Ms L Fowlie, Mrs L Meadows, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr J Patton, Dr D M Roberts, Dr G Roberts, Mr S Roberts, Mr I Salisbury, Dr L Shelley, Prof. P Spencer, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Mr J East, Dr J Latchford, Mr E Roberts, Ms E Riches, Dr T Woodman.

#### 400. COFNODION

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 8 Chwefror 2012.

#### 401. MATERION YN CODI

a) Cofnod 391 (a) Adroddiad Radon:

Derbyniwyd canlyniadau pedwerydd cam yr arolwg radon ac mae'r rhain wedi nodi dau faes lle mae angen archwilio neu waith adferol pellach.

b) Cofnod 391(i) Cefnogaeth gyda Dychwelyd i'r Gwaith:

Rhoddodd y cyfarfod rhwng yr Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol, Meddygon Teulu lleol, a chynrychiolwyr o Gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn, a Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr, sicrwydd bod y system newydd dychwelyd i'r gwaith yn gweithio'n dda.

Nodwyd bod y Fonesig Carol Black wedi canmol y cynllun hwn yn ddiweddar ac wedi annog i'r canlyniad gael ei rannu drwy'r cyfryngau iechyd galwedigaethol fel enghraifft o ymarfer gorau i wasanaethau eraill ei dilyn.

c) Cofnod 396 Adroddiad ar y Digwyddiad *E.coli*:

Mae Asiantau a chyrrff Iechyd Cyhoeddus perthnasol ar hyn o bryd wrthi'n cytuno pwy sydd â chyfrifoldeb dros wahanol agweddau ar weithredu a rhoi cyngor i feithrinfeydd a chyfleusterau gofal plant eraill.

#### 402. ADRODDIAD GAN Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Dywedwyd bod y Grŵp Tasg wedi bod yn ymwneud â nifer o feysydd yn cynnwys:

- i. Ystyried Adroddiad Archwilio'r Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad a'r Adroddiadau Hunan Werthuso Blyneddol.
- ii. Datblygu'r rheoliadau preseanol yn ymwneud ag ysmegu. Nodwyd yn arbennig bod y Grŵp Tasg wedi gwneud newid technegol i'r Polisi Dim Ysmegu i ganiatáu sefydlu 'mannau ysmegu' arbrofol ar yr ystâd. Sefydlir tri man arbrofol i ddechrau, sef ar gampws preswyl Ffriddoedd ac ar safle Stryd y Deon. Ystyrir sefydlu mannau ysmegu pellach ar ôl i lwyddiant y mannau arbrofol hyn gael ei gloriannu.
- iii. Crisialu a ffurfioli cyfrifoldeb dros agweddau ar iechyd a diogelwch yr Ystâd Breswyl (Neuaddau Preswyl), yn dilyn newidiadau diweddar a wnaed i'r Adran Ystadau a Chyfleusterau. Cynhyrchwyd Papur yn amlinellu cyfrifoldeb ac ymwneud pwyllgorau â'i gilydd a nodwyd bod angen gwneud newid hefyd i Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

(a): **Newid i Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol**

Argymhellodd y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch i Bolisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol gael ei ddiwygio i gynnwys y cyfrifoldeb sydd nawr wedi cael ei ddirprwyo dros yr ystâd breswyl i'r Pennaeth Preswylfeydd. Gwnaed yr argymhelliad hwn gan fod y Polisi presennol yn nodi bod gan y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau gyfrifoldeb dros yr holl adeiladau ond, o ganlyniad i newidiadau diweddar, nid dyna'r achos bellach.

Ystyriwyd y newidiadau a argymhellwyd, gan gynnwys swyddogaeth y Pennaeth Preswylfeydd fel Adran 2.22 newydd, a ***chytunwyd*** ar hynny, wedi gwneud mân newidiadau.

**403. POLISI DIOGELWCH RHAG TÂN**

Cafodd y Polisi Diogelwch rhag Tân diwygiedig a'r Canllawiau Rheoli cysylltiedig eu cyflwyno i'w trafod ac, yn amodol ar fân newidiadau, ***cytunwyd*** ar y Polisi.

**404. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH 2011**

Rhodddwyd crynodeb o Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch am flwyddyn galendr 2011 a nodwyd y canlynol yn arbennig:

- i. Mae'r cyfraddau Damweiniau a Digwyddiadau Peryglus yn aros ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn achos staff a myfyrwyr.
- ii. Rhodddwyd gwybod mai'r gyfradd absenoldeb staff oedd 5.8 diwrnod (2.23%), a oedd ychydig is na ffigurau 2010 ac ychydig is na chyfartaledd y sector AU.
- iii. Roedd nifer achosion seinio larymau tân ychydig uwch nag yn 2010 ond eto roedd y nifer yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- iv. Gwnaed un cais am iawndal yn erbyn yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Brifysgol; mae hwn yn cael ei herio gan yr Yswirwyr.
- v. Cafwyd un digwyddiad tân o bwys yn 2011. Digwyddodd hyn yn un o adeiladau'r gwyddorau ac o ganlyniad achoswyd difrod i un adain o'r adeilad.
- vi. Fe wnaeth oddeutu 1125 o staff fynychu cwrs hyfforddi Iechyd a Diogelwch neu Sesiwn Gyfarwyddo yn 2011; roedd hyn yn gynydd o 34% ar y flwyddyn flaenorol gydag oddeutu 120 o gyrsiau a sesiynau'n cael eu darparu.
- vii. Casglwyd tua £4,000 at Dŷ Gobaith drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau, gweithgareddau a'r loteri staff yn ystod y flwyddyn.
- viii. Unwaith eto cafodd Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Orllewin Cymru eu llongyfarch yn y seremoni Gwobrau Cenedlaethol am eu rhaglen ddigwyddiadau a ddarperir i fusnesau lleol.

Croesawyd yr adroddiad a chafwyd trafodaeth ar yr ystadegau ar seinio larymau tân. Wedi ystyriaeth briodol, ***argymhellwyd y canlynol:***

- ix. Dylid, os yn bosibl, ailsefydlu'r Sgwrs Diogelwch Tân a roddir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub i'r holl fyfyrwyr sy'n byw mewn Neuaddau Preswyl.
- x. Dylid rhoi blaenoriaeth i gyflwyno gwelliannau technegol pellach i leihau nifer achosion seinio larymau tân cyn asesu p'un a ddylai dulliau cyn-ymchwiliad gael eu cloriannu ymhellach.

**405. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH**

Rhodddwyd crynodeb o'r gwaith a wnaed ac a gynlluniwyd gan yr adran. Nodwyd y canlynol yn arbennig:

- i. Parhaodd gweithgareddau Cefnogi Iechyd, gan ganolbwyntio ar atal salwch, rhoi cefnogaeth i'r rhai sy'n sâl am gyfnod hir, cefnogi merched beichiog a mamau newydd, arolygu iechyd, a hybu iechyd drwy gynlluniau newydd a digwyddiadau.
- ii. Parhaodd gweithgareddau diogelwch a rheoli risg i ganolbwyntio ar leihau dod i gysylltiad â risgiau, cynorthwyo Colegau ac Adrannau, datblygu pobl a symleiddio dulliau gweithredu i alluogi i weithgareddau gael eu cynnal.

**406. ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD O'R COLEG GWYDDORAU IECHYD AC YMDDYGIAD (CoHaBS)**

Fe wnaeth yr archwiliad diweddar o CoHaBS dynnu sylw at ymrwymiad cadarnhaol y Coleg i iechyd a diogelwch gyda'r sgoriau meintiol ac ansoddol am reoli iechyd a diogelwch drwodd a thro yn cael sgoriau o "Da" a "Da Iawn" yn y drefn yna. Gwnaed argymhellion tebyg iawn i rai a wnaed i Golegau eraill ac maent yn cael eu hystyried ar lefel Prifysgol.

Yn dilyn yr archwiliad, mae nifer o sesiynau hyfforddi iechyd a diogelwch wedi cael eu darparu i staff CoHaBS.

**407. ADRODDIADAU HUNAN WERTHUSO CRYNO**

Yn achos Hunan Werthusiadau Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2011 o Golegau / Adrannau cafwyd adroddiad gan bob un o'r chwe Choleg a chan 14 o'r 21 o Adrannau Gwasanaeth.

Drwodd a thro roedd yr ymatebion a'r canlyniadau'n gadarnhaol, gyda gwelliannau yn y rhan fwyaf o fannau. Roedd y meysydd lle roedd angen gwella'n cynnwys gwella trefn adrodd ar berfformiadau a chadw cofnodion. Nodwyd y bydd y broses hunanwerthuso'n newid yn 2012.

**408. ADRODDIAD AR DDIOGELWCH YR YSTÂD**

Rhoddwyd crynodeb o ddiwyddiadau yn Ystadau a Chyfleusterau. Nodwyd yr eitemau allweddol a ganlyn:

- i. *Penodi Contractwyr Cyfnod Penodol*: bydd y broses hon yn sicrhau bod gan y Brifysgol gronfa o gontractwyr wedi'u gwirio y gellir eu penodi i wneud gwaith.
- ii. *Hygyrchedd*: cydnabuwyd bod angen i hygyrchedd gael ei wella ar draws yr ystâd.
- iii. *Strategaeth Ystadau*: caiff y strategaeth hon, sy'n edrych ar faterion cynnal a chadw sydd wedi crynhoi, yn ogystal â dyfodol yr ystâd, ei chwblhau erbyn Gorffennaf, yn unol â'r dyddiad a bennwyd gan HEFCW.
- iv. *SEACAMs*: dychwelwyd tendrau. Dylai gwaith ddechrau erbyn diwedd yr haf ac anelir at gwblhau'r project erbyn diwedd Gorffennaf 2013.
- v. *Pontio*: mae trafodaethau'n parhau â'r cynigydd dewisol. Rhagwelir y bydd y cam adeiladu'n dechrau yn ystod haf 2012.

Cafwyd trafodaeth wedyn ynghylch ymgynghori â'r Adran Ystadau a Chyfleusterau mewn ffordd amserol ynghylch newidiadau arfaethedig i'r ystâd. Awgrymwyd y dylai effeithiau posibl ar yr ystâd gael eu cynnwys yn y cam ymgeisio am grantiau ymchwil ac, yn dilyn trafodaeth, **cytunwyd** i fynd â'r mater ymlaen i'r Grŵp Tasg Strategaeth Ymchwil i'w ystyried.

**409. UNRHYW FATER ARALL**

Dim.